

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a  
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos  
Fawrth, 30ain Gorffennaf 2019 yn yr  
Ystafell Ddarllen, Llanon.**

**Minutes of a meeting of the Council  
held at 7:30 pm on Tuesday, 30<sup>th</sup> July  
2019 at the Reading Room, Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cynghorydd Lowri Jones; y  
Cynghorwyr Sheila Davies, Jim Hughes,  
Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled  
Roberts, Bryan Tomlins a Caryl  
Vaughan.

Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor Lowri Jones;  
Councillors Sheila Davies, Jim Hughes,  
Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled  
Roberts, Bryan Tomlins and Caryl  
Vaughan.

County Councillor Dafydd Edwards  
Denfer Morgan (Clerk)

**374 Ymddiheuriadau a Threfn**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Lodwick  
Lloyd am fethu a bod yn bresennol yn y  
cyfarfod, a chytunwyd anfon cerdyn yn  
mynegu gwillhad buan iddo fe.

**374 Apologies and Procedure**

Councillor Lodwick Lloyd apologised for  
their inability to attend the meeting and it  
was agreed to send him a card wishing  
him a speedy recovery.

**375 Datgelu Buddiant Personol ac Un  
sy'n Rhagfarnu**

Fe ddatgelodd y Cynghorwr Caryl  
Vaughan buddiant personol ac un sy'n  
rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng  
nghofnod 387b) (Cylch Peris) isod a  
gadawodd yr ystafell pan gafodd ei  
ystyried.

**375 Disclosure of Personal and Prejudicial  
Interest**

Councillor Caryl Vaughan disclosed a  
personal and prejudicial interest in the  
matter referred to in Minute 387b) (Cylch  
Peris) below and left the room during the  
discussion thereon.

**376 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a  
gynhaliwyd ar 2il Gorffennaf 2019**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r  
Cyngor a gynhaliwyd ar 2il Gorffennaf  
2019 fel rhai cywir yn amodol ar newid y  
gair 'their' i 'his' yn fersiwn Saesneg  
cofnod 362.

**376 Minutes of the Monthly Meeting held  
on 2<sup>nd</sup> July 2019**

The Minutes of the Monthly Meeting of the  
Council held on 2<sup>nd</sup> July 2019 were  
confirmed as being a correct record  
subject to amending the word 'their' to 'his'  
in the English version of minute 362.

**377 Materion yn codi o'r Cofnodion**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r  
cofnodion.

**377 Matters arising from the Minutes**

There were no matters arising from the  
minutes.

**378 Arwydd Ger Llain y Cyngor yn  
Llansantffraed**

Rhodddwyd ystyriaeth i gais a  
dderbyniwyd oddi wrth nifer o drigolion l

**378 Sign at Council's Slang at  
Llansantffraed**

Consideration was given to a request  
received from a number of residents that

newid geiriad yr arwydd a godwyd gan y Cyngor mewn ymgais i gyfyngu ar y nifer o gerbydau a oedd yn mynd ar y llain i adlewyrchu hawl cerbydau i fynd ar y tir at bwrpasau hamdden. Dywedodd trigolion annedd-dai gerllaw a oedd yn bresennol yn y cyfarfod eu bod yn para i fod o blaid geiriad a oedd yn ceisio rhwystro ei ddefnyddio fel maes parcio yn ystod misoedd yr haf. Cytunwyd hefyd fod hwn yn gyfle i dynnu sylw pobl at yr erydu a oedd yn digwydd i'r arfordir yn yr ardal hwn.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo newid y geiriad yr arwydd fel a ganlyn: "Oherwydd erydu, mae'r llain yn anaddas i gerbydau"; ac i gytuno fod y Cynghorydd Phil Tomlins yn trefnu cynhyrchu arwydd newydd gan Rebus Signs.

### 379 Meinciau yn y Gymuned

Rhodddwyd ystyriaeth i'r nodyn a baratowyd gan y Clerc ar y gwybodaeth anghyflawn a gynhwyswyd yn yr adroddiad blaenorol ar gyflwr y meinciau.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cynghorwyr Sheila Davies a Gwenno Piette archwilio cyflwr cyfredol y meinciau a chyflwyno eu hadroddiad i'r cyfarfod nesaf.

### 380 Y Chalet

**PENDERFYNWYD** nodi fod cais am Grant Cymunedol yn cael ei ystyried gan y Cyngor Sir a bod y Clerc wedi ateb cais am eglurhâd o faterion arbennig, gan gynnwys statws TAW y Cyngor ac anghenion cynllunio.

### 381 Man Chwarae Llansantffraed

Rhodddwyd ystyriaeth i Adroddiad Wicksteed yn dilyn eu harolwg blynyddol o gyfarpar y man chwarae yn Llansantffraed.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cyngor Sir wneud y gwaith trwsio a amlinellir yn yr Adroddiad, yn amodol ar ohirio trwsio

the wording on the sign erected by the Council in an attempt to restrict the number of vehicles accessing the slang be amended to reflect the right of vehicles to access the land for recreational purposes. Residents of the nearby dwellings who were in attendance at the meeting indicated that they continued to be in favour of a wording which still attempted to prevent its use as a car park during the summer months. It was also agreed that this was an opportunity to draw people's attention to the coastal erosion in this area.

Following discussion, it was **RESOLVED** to approve the following amended wording for the sign: "Unsuitable for vehicles due to cliff erosion"; and to agree that Councillor Phil Tomlins arrange for the new sign to be produced by Rebus Signs.

### 379 Benches in the Community

Consideration was given to the note prepared by the Clerk on the incomplete information provided in the previous report prepared on the condition of the benches.

It was **RESOLVED** to request Councillors Sheila Davies and Gwenno Piette to inspect the current condition of the benches and submit their report to the next meeting.

### 380 The Chalet

It was **RESOLVED** to note that an application for a Community Grant was under consideration by the County Council and that the Clerk had responded to the request for clarification of certain matters, including the Council's status for VAT and planning requirements.

### 381 Llansantffraed Playground

Consideration was given to the Report received from Wicksteed following their annual inspection of the playground equipment at Llansantffraed.

It was **RESOLVED** to request the County Council to undertake the repairs identified in the Report, subject to deferring repairs

rhwyd dringo, gan nad oedd ei gyflwr yn dangos fod angen sylw brys arno fe.

- 382 Materion Ariannol**  
**PENDERFYNWYD** talu'r anfonebau canlynol:  
Wicksteed £85.20  
Robert Hladik (chwynnu'r man eistedd) £20  
Meurig Lloyd (Toriad Gorffennaf) £284

- 383 Trefniadau cyfrifyddu 'Clonc Llanon'**  
**PENDERFYNWYD** gohirio trafodaeth ar y mater hwn ar hyn o bryd.

- 384 Cais am olau stryd yn Nebo**  
Rhoddwyd ystyriaeth pellach i'r pris a dderbyniwyd ar gyfer gosod golau stryd yn Nebo, fel a holwyd amdano gan drigolion y pentref.

**PENDERFYNWYD** gofyn i Gyngor Sir Ceredigion fwrw mlaen i osod y golau stryd yn unol a'r pris a ddarparwyd ganddynt sef £1,705.95.

- 385 Cau allan y Cyhoedd a'r Wasg**  
**PENDERFYNWYD**, yn unol â darpariaethau Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cau allan y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod ar gyfer ystyried rhan o'r eitem ganlynol, sef yr ystyriaeth o anghydfod yn ymwneud â chontract rhwng y Cyngor a chontractwr.

- 386 Contract Torri Tyfiant Llwybrau Cyhoeddus**  
Rhoddwyd ystyriaeth pellach i faterion yn ymwneud â'r contract uchod. Diolchodd y Cadeirydd arolygwyr llwybrau troed y Cyngor, y Cynghorwyr Sheila Davies a Dennis Morgan, am wneud arolwg o gyflwr y llwybrau troed yn ystod y dyddiau blaenorol, a darllenwyd yr Adroddiad a baratowyd gan y Cynghorydd Davies i'r Aelodau. Trafodwyd y materion isod hefyd:-

- Llwybr Troed Brynadsain (33/09) – cytunwyd trefnu clirio toriadau y llynedd.

to the scramble net, as its condition did not appear to need immediate attention.

- 382 Finance Matters**  
It was **RESOLVED** to pay the following invoices:  
Wicksteed £85.20  
Robert Hladik (seating area weeding) £20  
Meurig Lloyd (July cut) £284

- 383 Accounting Arrangements for 'Llanon Chat'**  
It was **RESOLVED** to defer discussion of this matter for the time being.

- 384 Request for street light at Nebo**  
Further consideration was given to the price received for the provision of a street light at Nebo, as requested by residents of the village.

It was **RESOLVED** to request the Ceredigion County Council to proceed to install the street light in accordance with the price provided by them of £1,705.95.

- 385 Exclusion of Public and Press**  
It was **RESOLVED**, under the provisions of Section 1(2) of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, to exclude the public and press from the meeting for the consideration of part of the following item, namely the consideration of a contractual dispute involving the Council and a contractor.

- 386 Public Footpath Growth Cutting Contract**  
Further consideration was given to matters relating to the above-mentioned contract. The Chairman thanked the Council's footpath inspectors, Councillors Sheila Davies and Dennis Morgan, for undertaking an inspection of the condition of the footpaths in the preceding days, and the Report prepared by Councillor Davies was read out to Members. The undermentioned matters were also discussed:-
- Brynadsain footpath (33/09) – agreed to arrange to clear the

- Cytunodd y Cynghorydd Phil Tomlins lenwi'r twll yn y llwybr troed arall a gyfeiriwyd ato fe yn y cyfarfod.

Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i ddau anfoneb a dderbyniwyd drwy law ar ddechrau'r cyfarfod oddi wrth Mr Meurig Lloyd, y contractwr, sef:

- anfoneb rhif J18/2019 am £284 am waith a wnaed ganddo ym mis Gorffennaf
- ail anfoneb, hefyd wedi'i rifo J19/2019, am swm o £1,162 am 'work carried out on an hourly/daily basis' ym mis Gorffennaf; ac am £139.99 am gost pwrcasu camera corff.

**PENDERFYNWYD:**

- i) talu Mr Lloyd swm o £284 am y gwaith a wnaed ganddo ym mis Gorffennaf yn unol ag amodau ei dendr a gyflwynwyd ganddo drwy ebost dyddiedig 20<sup>th</sup> Mawrth 2019; a
- ii) peidio a thalu'r symiau o £1,162 a £139.99 a hawliwyd ganddo gan nad oeddynt yn unol ag amodau'r tendr a gyflwynwyd ganddo.

previous year's cutting.

- Councillor Phil Tomlins agreed to fill a hole in the other footpath referred to at the meeting.

Consideration was also given to two invoices handed in at the commencement of the Meeting from the contractor, Mr Meurig Lloyd, namely:

- invoice no. J18/2019 for £284 for work undertaken by him in July
- a secondary invoice, also numbered J18/2019, for £1,162 in respect of 'work carried out on an hourly/daily basis' during July; and for £139.99 for the cost of purchasing a body camera.

It was **RESOLVED:**

- i) to pay Mr Lloyd a sum of £284 for the work undertaken by him in July in accordance with the terms of his tender which he submitted by way of an email dated 20<sup>th</sup> March 2019; and
- ii) not to pay the sums of £1,162 and £139.99 claimed by him as they were not in accordance with the terms of the tender submitted by him.

**387 Materion a ohiriwyd yn y Cyfarfod Diwethaf**

- a) Cŵyn am sbwriel yn cael ei adael ar lan afon Peris - Nodwyd taw tir preifat oedd hwn ac i ddwyn sylw'r Cyngor Sir at y broblem.
- b) Cŵyn am gerbydau yn creu rhwystr yng Nghylch Peris – nodwyd taw mater i'r Heddlu oedd hwn ac y dylai achwynwyr ffonio 110.

**388 Carnifal Llanon**

Cytunwyd awdurdodi'r Cadeirydd i drefnu stondin yn y Carnifal a fydd yn darparu gwybodaeth am waith y Cyngor.

**389 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

- a) Atebodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards fel a ganlyn i gwestiynau'r

**387 Matters deferred at the Last Meeting of the Council**

- a) Complaint about rubbish being deposited on the banks of the river Peris – it was noted that this was private land and to draw it to the attention of the County Council.
- b) Complaint about vehicles causing an obstruction in Cylch Peris – it was noted that this was a matter for the Police and to advise complainants to phone 110.

**388 Llanon Carnival**

It was agreed to authorise the Chairman to organise a stall at the Carnival providing information about the work of the Council.

**389 Any Other Competent Business**

- a) In reply to queries from Councillors Aled Roberts and Dennis Morgan, County

Cynghorwyr Aled Roberts a Dennis Morgan:-

- disgwylir penderfyniad Llywodraeth Cymru ar gyflwyno cyfyngiadau parcio ar yr A487 o hyd
  - roedd Tai Ceredigion wedi cynnwys yn ei raglen cynllun ar gyfer datblygiad tai ar dir y Cyngor Sir y tu ôl i Hafan-yr-Efail a fyddai'n cynnwys darpariaeth parcio i'r gymuned
  - fe fyddai'r cais cynllunio ar gyfer annedd-dai ychwanegol yn ffinio â Chylch Peris yn cynnwys elfen o dai cymdeithasol.
- b) Cytunwyd gohirio gosod biniau baw cwn ychwanegol ar hyn o bryd
- c) Dylid cyfeirio ymddygiad gwrth gymdeithasol mewn cysylltiad â pharcio dros nos yng nghyffiniau'r Morfa i'r heddlu.
- d) Cytunwyd ychwanegu torri'r porfa ar lain y Cyngor at gontract torri llwybrau cyhoeddus y Cyngor.
- e) Dywedodd y Cynghorudd Phil Tomlins y dylid cofnodi diolch y Cyngor i Dylan o'r White Swan am ddarparu peli tenis ar gyfer y cwrt; hefyd, roedd angen adnewyddu arwyddion llwybr yr arfordir.
- f) Dywedodd y Cynghorydd Lowri Jones fod rhannau o Stad Graig ddu wedi'u torri a'u clirio'n ddiweddar.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:25pm

Councillor Dafydd Edwards advised as follows:-

- the decision of Welsh Government on the introduction of parking restrictions on the A487 was still awaited
  - Tai Ceredigion had included in its programme a scheme for a housing development on the County Council land to the rear of Hafan-yr-Efail which included a provision for community parking
  - the planning application for additional housing at Cylch Peris would still include an element of social housing.
- b) It was agreed to delay the placing of additional dog waste bins for the time being
- c) Complaints about anti-social behaviour connected to overnight parking in the Morfaa vicinity should be reported to the Police.
- d) It was agreed to add to the footpath cutting contract the cutting of the grass on the Council's slang.
- e) Councillor Phil Tomlins wished that the Council's thanks to Dylan at the White Swan for providing tennis balls for use on the court be recorded; also, there was a need for the coastal footpath signs to be renovated.
- f) Councillor Lowri Jones stated that the areas at Stad Graig Ddu had been cut and cleared recently.

The meeting concluded at 9:25pm